

CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL SIR GAERFYRDDIN CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER YSGYFARNOGOD

Cyflwyniad

Mae'r ysgyfarnog (*Lepus europaeus*, brown hare) yn rhywogaeth eang ei dosbarthiad ym Mhrydain ond mae'n prinhaus. Creadur llawr gwlad ydyw'n bennaf gan ffafrio tir amaethyddol ond mae modd gweld ysgyfarnogod ar dir sy'n cyrraedd hyd at 500 metr uwchlaw'r môr. Ym Mhrydain mae ysgyfarnogod yn byw ar dir â'r ac ar borfeydd, ond mae'n ymddangos eu bod fwyaf cyffredin ar dir sy'n gymysgedd o'r ddau. Prin yw tir cymysg o'r fath yn lleol, ac yn ôl pob golwg mae'n well gan yr ysgyfarnogod sydd yn y sir hon borfeydd brwynog a thir canolig ei uchder, hynny yw cyrion yr ucheldiroedd.



Creaduriaid y nos yw ysgyfarnogod yn gyffredinol. Yn fynych maent yn dod at ei gilydd i fwydo ar borfa, ar gnydau grawn, ac ar gnydau gwreiddlysiau. Maent yn tueddu i guddio mewn gwalau bychain yn ystod y dydd. Nid yw'r bychod yn amddiffyn tiriogaethau ond maent yn gwarchod ysgyfarnogod benyw yn ystod y tymor paru, ac mae hynny'n rhoi bod i wrthdaro ymosodol yn fynych.

Mae ysgyfarnogod yn dibynnu ar eu gallu i redeg yn gyflym am bellter i ddianc rhag ysglyfaethwyr. Ystyrir taw cadnoid yw'r prif ysglyfaethwyr naturiol, ond mae tylluanod ac adar ysglyfaethus eraill yn cymryd lefrod.

Mae dirywiad mawr wedi bod o ran niferoedd a dosbarthiad ysgyfarnogod yn Sir Gaerfyrddin ers 1950. Dengys y cofnodion ers 1990 fod y rhan fwyaf o'r poblogaethau erbyn hyn yn yr ardaloedd bryniog yng ngogledd a dwyrain y sir lle mae llai o amaethu dwys; yn wir daw'r cofnodion diweddaraf o ardal Cwm-ann - Rhandir-mwyn – Talylychau.

Hefyd mae penrhyn Pen-bre yn ardal bwysig yn y sir i ysgyfarnogod. Gwelir ysgyfarnogod wedi crynhoi at ei gilydd yn rheolaidd yn y twyni agored, ar y rhodfeydd ac yn y llennyrch yn y goedwig ei hun, a hefyd ar y tir amaethyddol cyfagos. Mae'n eithaf posibl fod y twyni tywod i'r dwyrain o Bentywyn, na wnaed yno ryw lawer o waith cofnodi hyd yn hyn, yn gartref i nifer helaeth o ysgyfarnogod.

Lleoliad arall - sydd braidd yn anghyffredin efallai - yw Ffos-las, Trimsaran. Ni chadarnhawyd hyd yn hyn a yw'r niferoedd helaeth a arferai fod ar y tir agored ar ôl adfer y safle glo brig yn dal i fod yno ar ôl datblygu'r cae rasio.

Y prif resymau dros y dirywiad yn Sir Gaerfyrddin yw colli cynefinoedd amaethyddol, a newidiadau o ran y drefn cynaeafu a phlannu, er enghraifft newid o gywain gwair sych i ladd silwair, a phlannu cnydau grawn yn yr hydref.

Datganiad o Weledigaeth ac Amcanion

Ein gweledigaeth yn Sir Gaerfyrddin ar gyfer ysgyfarnogod yw sicrhau bod gennym ddealltwriaeth dda o faint y boblogaeth ac o'r dosbarthiad, a chynyddu niferoedd ysgyfarnogod. Byddai modd gwneud hynny drwy ddarparu'r ystod o gynefinoedd cysylltiedig sydd eu hangen arnynt i oroesi, a thrwy gydweithio â pherchenogion tir/sefydliadau i gael mwy o amrywiaeth amaethyddol gan sicrhau felly fod mwy o

amrywiaeth o ffynonellau bwyd ar gael drwy gydol y flwyddyn. Byddai unrhyw gamau gweithredu yn ceisio cyflawni un neu ragor o'r amcanion canlynol:

HAR1 Cynnal a chynyddu niferoedd a dosbarthiad ysgyfarnogod yn Sir Gaerfyrddin

HAR2 Casglu data ynghylch dosbarthiad a statws ysgyfarnogod yn Sir Gaerfyrddin

HAR3 Cynyddu ymwybyddiaeth o ysgyfarnogod yn Sir Gaerfyrddin

Crynodeb o'r camau gweithredu a gyflawnwyd gan Bartneriaid y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (i gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r swyddog bioamrywiaeth – Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk neu ewch i wefan y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth - <http://ukbars.defra.gov.uk>):

2010–12

- Cynhaliwyd arolwg cardiau post i hyrwyddo cyflwyno cofnodion – Cyngor Sir Caerfyrddin HAR2
- Sefydlwyd prosiect i gael gwybodaeth am y poblogaethau craidd yn Sir Gaerfyrddin - Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru HAR2

Y camau arfaethedig yn y dyfodol


- Llunio taflen wybodaeth i berchenogion tir ynghylch rheoli tir er budd ysgyfarnogod HAR3
- Rhoi sylw i bresenoldeb a phwysigrwydd ysgyfarnogod yn y sir – Cyngor Sir Caerfyrddin HAR3

Dolenni defnyddiol:

- [Hare Preservation Trust](#)
- Yr Ymddiriedolaeth Natur – [brown hare](#)
- Cymdeithas y Mamaliaid - [brown hare](#)

Mae gan ysgyfarnogod le blaenllaw yn ein llên gwerin, ac maent yn greaduriaid amlwg ym myd hud a lledrith. Arferai'r Celtiaid addoli ysgyfarnogod ac yn ystod yr Oesoedd Canol yr oedd pobl yn tybio eu bod yn gysylltiedig â gwrachod - gan gredu bod gwrachod yn gallu troi'n ysgyfarnogod i ddianc rhag eu gelynyon.

Cofnodion ysgyfarnogod ar sail yr arolwg cardiau post - o 2004 ymlaen



Partneriaeth **Bioamrywiaeth** Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire **Biodiversity** Partnership

www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk

Mae [Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin](#) yn cynnwys y sefydliadau canlynol:
[Cyngor Sir Caerfyrddin](#), [Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a Gorllewin Cymru.](#), [Cyfoeth Naturiol Cymru.](#), [Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar](#), [Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir](#), [Clwb Adar Sir Gaerfyrddin](#), [Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru](#), [Gwarchod Glöynnod Byw](#), [Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin](#), [Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol](#), [Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain](#), [Naturiaethwyr Llanelli](#), [Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystumod](#), [Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru](#), [Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid](#)